Cyngor Sir Ddinbych
Dyraniad Grant Sefydliadau Gwirfoddol Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2011/12

Cyflwyniad

Gwnaethpwyd ymrwymiad o fewn Cynllun Busnes Gwasanaeth Plant a Theuluoedd 2011-2012 i gyflawni'r weledigaeth a nodir isod a sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu bodloni'n briodol.

Ein gweledigaeth yw:

> I anelu'n uchel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych i sicrhau fod ganddynt gyfle cyfarfal i gyflenwi eu potensial, i fod yn ddiogel ac yn iach ac i lwyddo ar eu llwybrau yn y dyfodol.

I gyflawni'r weledigaeth hon mae'r blaenoriaethau canlynol wedi eu nodi:

- **Ymestyn darpariaeth gwasanaethau i Blant ag Anableddau**
- **Canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal**
- **Gwasanaethau cadarnach i Blant Mewn Angen a phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant - gyda ffocws ar wasanaethau ataliol a chymorth i deuluoedd.**

Mae'n bwysig darparu ystod o wasanaethau yn erbyn y blaenoriaethau ariannu a nodwyd sydd wedi eu gosod allan isod. Gwahoddir sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i gymunedau Sir Ddinbych i ymgeisio am ariannu drwy'r Grant Sefydliadau Gwirfoddol ar gyfer 2011-2012.

Blaenoriaethau Ariannu

BLAENORIAETH
Ymestyn darpariaeth gwasanaethau i Blant ag Anableddau • Darpariaeth y tu allan i ysgol ar gyfer plant anabl • Darpariaeth gwasanaethau sy'n galluogi cynhwysiad cymdeithasol plant anabl mewn gwasanaethau/gweithgareddau cymunedol
Canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal • Gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal l
Gwasanaethau cadarnach i Blant Mewn Angen a phlant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant – gyda ffocws ar wasanaethau ataliol a chymorth i deuluoedd • Gwell cyrchiad i wasanaethau ataliol o fewn cymunedau a chyrchiad i

gyfleusterau sy'n gymdeithasol gynhwysol i blant a'u teuluoedd

- Darpariaeth gwasanaethau'n galluogi gofalwyr ifanc i gyrchu gwasanaethau/gweithgareddau cymunedol
- Gwasanaethau sy'n galluogi teuluoedd i ddatrys materion yn gynnar gan leihau nifer y plant y mae Cyngor Sir Ddinbych yn gofalu amdanyn nhw.